**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

6ed Ionawr 2022

Annwyl Huw

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch yr eglurder a geisir gan y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoli Cymorthdaliadau.

Hoffwn achub y cyfle hefyd i ddiolch i chi a'r Pwyllgor am ystyried y materion pwysig hyn, eich cytundeb â'n safbwynt bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 63 i 69, 70 i 75 a 80 i 92 o'r Bil, a'r gefnogaeth a roddwyd yn eich casgliadau i ddiwygiadau i'r bil fynd i'r afael â'n pryderon.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau penodol:-

*Argymhelliad 1*. *Er mwyn osgoi amheuaeth dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 41 a 42 ac a yw felly'n gofyn am gydsyniad y Senedd ar eu cyfer.*

Mae Cymal 41 yn ceisio diffinio'r trothwy ariannol ar gyfer eithrio rhai Gwasanaethau o Ddiddordeb Economaidd Cyhoeddus (SPEI) rhag gofynion tryloywder y gyfundrefn gymorthdaliadau. Mae cymal 42 yn ceisio grymuso'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol i ddiwygio neu ostwng y trothwyon uchaf ar gyfer adrodd ar dryloywder SPEI ac isafswm Cymorth Ariannol neu Gymorth Ariannol SPEI.

Er nad yw cymalau 41 a 42 yn gosod swyddogaethau yn uniongyrchol ar Lywodraethau Datganoledig mewn perthynas â chymorthdaliadau, bydd eu cynnwys yn effeithio ar arfer swyddogaethau datganoledig. Am y rheswm hwn, rydym o'r farn bod y cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â meysydd datganoledig. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol heddiw.

Yn ogystal, mae'n hanfodol bod unrhyw benderfyniadau ynghylch newidiadau yn y dyfodol i'r trothwyon ar gyfer SPEI ac isafswm Cymorth Ariannol neu Gymorth Ariannol SPEI yn cael eu gwneud ar sail cydsyniad cydfuddiannol. Yn unol â hynny, byddwn yn ceisio diwygiadau i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond gyda chydsyniad rhwng pedair llywodraeth y DU y gellir gwneud penderfyniadau o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi rheoliadau a chanllawiau drafft fel y gall Senedd y DU ac Aelodau o'r Senedd drafod manylion y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau a deall effeithiau posibl y Bil yn well.*

Rydym yn pwyso, a byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i roi mwy o eglurder ar y gyfundrefn yn y dyfodol. O gofio'r effaith y bydd y Bil hwn yn ei chael ar draws ystod eang o feysydd polisi a gedwir yn ôl a meysydd polisi datganoledig, mae'n hanfodol i Seneddwyr ac Aelodau o'r Senedd gael manylion digonol am sut y bydd y weithdrefn hon yn gweithio'n ymarferol er mwyn deall yn well effaith economaidd a chymdeithasol bosibl y Bil ar Gymru a'r DU yn ehangach.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government